## ATODLEN 1

Rheoliad 7(2), (5) a (12)

Gwybodaeth am ddarpar rieni maeth ac aelodau eraill o'u haelwyd a'u teulu

# RHAN 1

**1.** Enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni.

**2.** Manylion iechyd (wedi eu hategu gan adroddiad meddygol).

**3.** Manylion unrhyw aelodau eraill o'r aelwyd sy'n oedolion.

**4.** Manylion y plant yn y teulu, pa un a ydynt yn aelodau o'r aelwyd ai peidio, ac unrhyw blant eraill yn yr aelwyd.

**5.** Manylion eu llety.

**6.** Canlyniad unrhyw archiad neu gais a wnaed ganddynt neu gan unrhyw aelod arall o'u haelwyd i faethu neu fabwysiadu plant, neu i gofrestru'n warchodwr plant neu'n ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), gan gynnwys manylion unrhyw gymeradwyaeth flaenorol sy'n ymwneud â hwy neu ag unrhyw aelod arall o'r aelwyd, neu unrhyw wrthodiad blaenorol i gymeradwyaeth o'r fath.

**7.** Os yw'r person, yn y tair blynedd flaenorol, wedi bod yn rhiant maeth a gymeradwywyd gan ddarparwr gwasanaethau maethu arall neu ddarparwr gwasanaethau maethu yn Lloegr, enw a chyfeiriad y darparwr gwasanaethau maethu hwnnw.

**8.** Enwau a chyfeiriadau dau berson a fydd yn darparu geirda personol ar gyfer y person.

**9.** Mewn perthynas â'r person ac unrhyw aelod arall o aelwyd y person sy'n 18 oed neu drosodd, tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**2**) sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno).

**10.** Manylion priodas, partneriaeth sifil neu berthynas debyg gyfredol ac unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas debyg flaenorol.

# RHAN 2

**11.** Manylion personoliaeth.

**12.** Argyhoeddiad crefyddol, a gallu i ofalu am blentyn o unrhyw argyhoeddiad crefyddol penodol.

**13.** Tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol a gallu i ofalu am blentyn o unrhyw darddiad hiliol neu gefndir diwylliannol neu ieithyddol penodol.

**14.** Gallu i ddarparu cymorth i blentyn mewn perthynas â'i gyfeiriadedd rhywiol a'i hunaniaeth o ran rhywedd.

**15.** Cyflogaeth neu alwedigaeth yn y gorffennol a'r presennol, safon byw, gweithgareddau hamdden a diddordebau.

**16.** Profiad blaenorol (os o gwbl) o ofalu am eu plant eu hunain a phlant eraill.

(**1**) 2010 mccc 1.
(**2**) 1997 p. 50.

**17.** Sgiliau, cymhwysedd a photensial sy'n berthnasol i'w gallu i ofalu'n effeithiol am blentyn sydd wedi ei leoli gyda hwy.